Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol: Arweiniad ar gyfer Cynhadledd Welliant Ôl-arolygiad

**Medi 2019**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Diben** | **1** |
| **Ffocws** | **1** |
| **Nodau’r gynhadledd** | **1** |
| **Canlyniadau’r gynhadledd** | **1** |
| **Pwy fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd** | **1** |
| **Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, CLILC ac AGC** | **2** |
| **Rôl Estyn** | **2** |
| **Hysbysu** | **3** |
| **Paratoi ar gyfer cynhadledd** | **3** |
| **Briff ar gyfer y gynhadledd** | **4** |
| **Lleoliad y gynhadledd** | **4** |
| **Proses y gynhadledd** | **4** |
| **Cymryd rhan ym mhroses y gynhadledd** | **5** |
| **Cofnod o’r gynhadledd** | **5** |
| **Canlyniad y gynhadledd** | **6** |
| **Gweithgarwch ar ôl y gynhadledd** | **6** |
| **Cynhadledd gynnydd** | **6** |
| **Ymweliad monitro** | **7** |
| **Atodiad 1:  Ystafell arolygu rithwir** | **8** |
| **Atodiad 2:  Y sylfaen gyfreithiol** | **9** |

## Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â'n cynadleddau gwelliant ôl-arolygiad gydag awdurdodau lleol sy'n destun pryder sylweddol.

## Diben

Diben ein cynadleddau gwelliant ôl-arolygiad yw cynorthwyo awdurdod lleol i wella'i wasanaethau addysg.

Byddwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn y broses hon lle y nodwyd, drwy arolygiad, fod awdurdod lleol yn destun pryder sylweddol.

Mewn achos felly, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn dwy gynhadledd welliant. Cynhelir y gyntaf tua thri mis ar ôl cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol (GAALl) er mwyn cynorthwyo'r awdurdod lleol i ddatblygu'i gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad arolygu. Cynhelir yr ail gynhadledd, y'i galwn yn 'gynhadledd gynnydd', tua 12 i 18 mis ar ôl y gynhadledd welliant gychwynnol, pan fydd y camau gweithredu yng nghynlluniau'r awdurdod lleol wedi dechrau cael effaith ar ansawdd y rheolaeth, y ddarpariaeth a'r deilliannau.

## Ffocws

Mae arolygiad o awdurdod lleol yn ystyried holl ystod y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Bydd y gynhadledd welliant ôl-arolygiad yn canolbwyntio ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad.

## Nodau'r gynhadledd

Yn ystod y gynhadledd, bydd arolygwyr yn ystyried:

- p'un a yw'r awdurdod lleol wedi nodi'n glir y materion a amlygwyd ac yn eu deall
- p'un a oes gan yr awdurdod lleol gynlluniau cydlynus i fynd i'r afael â'r materion hyn
- p'un a oes gan yr awdurdod lleol adnoddau digonol i weithredu ei gynlluniau
- p'un a oes gan yr awdurdod lleol brosesau trylwyr ar waith i fonitro gweithredu ei gynlluniau a gwerthuso'r effaith

Bydd y gynhadledd yn ystyried unrhyw rwystrau rhag cynnydd ac yn archwilio atebion posibl i'r rhwystrau hyn, ynghyd ag unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau.

## Canlyniadau'r gynhadledd

- Gwell ffocws ar gynlluniau'r awdurdod lleol, ei fesurau llwyddiant ac amserlenni realistig
- Cymorth gwell neu gymorth ychwanegol, lle y bo'n berthnasol, gan bartneriaid a rhanddeiliaid allanol

### Pwy fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd

Bydd cynhadledd welliant ôl-arolygiad yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr a rheolwyr o awdurdod lleol a'i bartneriaid, fel ei gonsortiwm rhanbarthol. Bydd pob cynhadledd

yn cael ei theilwra yn ôl cyd-destun yr awdurdod dan sylw, ond mae'n debygol o gynnwys y cyfranogwyr canlynol:

Swyddogion:

- prif swyddog gweithredol
- cyfarwyddwr addysg (neu gyfwerth)
- cyfarwyddw(y)r cynorthwyol / rheolw(y)r gwasanaeth (lle y bo'n berthnasol)
- cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol (lle yr amlygwyd diffygion perthnasol yn ymwneud â diogelu)

Aelodau etholedig:

- arweinydd
- yr aelod cabinet dros addysg (neu gyfatebol)
- cadeirydd craffu ar addysg (neu gyfatebol)

Consortiwm rhanbarthol:

- prif weithredwr arweiniol, cyfarwyddwr arweiniol, rheolwr gyfarwyddwr, swyddog arweiniol ar gyfer yr awdurdod lleol neu'r ganolan (un neu ragor, fel y bo'n berthnasol)

Nid rhestr derfynol yw'r uchod. Bydd y cyfranogwyr yn amrywio yn ôl y materion penodol sy'n cael eu trafod yn y gynhadledd.

**Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, CLILC ac AGC**

Byddwn yn gwahodd Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a CLILC i anfon cynrychiolydd i gymryd rhan yn y gynhadledd. Os bydd yn berthnasol i ffocws yr argymhellion sy'n cael eu trafod, byddwn yn gwahodd AGC i anfon cynrychiolydd hefyd.

Gallai'r rhanddeiliaid allanol hyn gyfrannu at y drafodaeth. Efallai hefyd byddant eisiau cynnig cymorth ychwanegol i'r awdurdod a defnyddio'r wybodaeth o'r gynhadledd welliant ôl-arolygiad yn eu gwaith eu hunain gyda'r awdurdod.

**Rôl Estyn**

Bydd y gynhadledd yn cael ei chadeirio gan arolygydd arweiniol Estyn, yn rhinwedd ei rôl fel corff annibynnol. Ni fydd yr arolygydd hwn yn arolygydd cyswllt yr awdurdod sydd dan sylw yn y gynhadledd.

Bydd dau arolygydd arall yn cynorthwyo'r arolygydd arweiniol. Bydd o leiaf un ohonynt yn arolygydd cyswllt ac yn cynorthwyo'r cadeirydd yn ystod y gynhadledd, oherwydd bydd llawer o wybodaeth ganddo wrth law am yr awdurdod. Bydd yr arolygydd arall yn canolbwyntio'n bennaf ar gadw cofnod o'r gynhadledd.

Nid rôl Estyn yw rhoi cyngor i awdurdod ar beth i'w wneud. Gallai arolygwyr herio penderfyniadau a chamau gweithredu sy'n cael eu trafod yn ystod y gynhadledd er mwyn eu profi. Er enghraifft, gallai arolygwyr gwestiynu pwy fydd yn arwain cam

gweithredu; a oes gan yr awdurdod yr adnoddau i roi’r cam gweithredu ar waith ai peidio; pa effaith a fwriedir gan y cam gweithredu; a, sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

**Hysbysu**

Wedi i ni nodi bod awdurdod lleol yn destun pryder sylweddol, byddwn yn rhannu ein barn gyda’r uwch swyddogion a’r aelodau etholedig yn y sesiwn adborth ar ddiwedd yr arolygiad. Bryd hynny, byddwn yn eu hysbysu hefyd am ein bwriad i alw cynhadledd gydag awdurdod lleol.

Cyn gynted â phosibl ar ôl yr arolygiad, bydd yr arolygydd cyswllt yn awgrymu dyddiad ar gyfer y gynhadledd i gadarnhau ei fod yn addas. Byddwn yn ystyried argaeledd uwch arweinwyr a rheolwyr, gwaith arolygiaethau eraill neu Lywodraeth Cymru, ac unrhyw ddigwyddiadau lleol sydd yn yr arfaeth yn ymwneud â’r materion y bydd y gynhadledd yn canolbwyntio arnynt. Byddwn yn cytuno ar ddyddiad ac yn cadarnhau’r hysbysiad ffurfiol, a fydd yn dod oddi wrth gydlynydd arolygu bedair wythnos waith cyn y gynhadledd.

Bydd y cydlynydd arolygu yn cydweithio â’r awdurdod i gwmpasu’r trefniadau ymarferol ar gyfer y gynhadledd ac yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer yr arolygydd arweiniol.

**Paratoi ar gyfer cynhadledd**

Byddwn yn enwi arolygydd arweiniol i gadeirio’r gynhadledd, sef arolygydd arweiniol yr arolygiad fel arfer. Bydd yn cael ei gynorthwyo gan ddau arolygydd arall, y bydd o leiaf un ohonynt yn arolygydd cyswllt yr awdurdod.

Fel arfer, bydd yr arolygydd arweiniol yn ymweld â’r awdurdod cyn y gynhadledd, ar y cyd ag un o arolygwyr cyswllt yr awdurdod. Yn ystod yr ymweliad hwn, byddant yn cyfarfod ag uwch arweinwyr a rheolwyr a fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd. Bydd yr arolygydd arweiniol a’r awdurdod yn cytuno pwy fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd fel cynrychiolwyr yr awdurdod. Gall y trefniadau hyn fod yn weddol hyblyg, wrth i ni anelu at ddatblygu a chynnal perthynas waith agored a chynhyrchiol gyda’r awdurdod ar ôl yr arolygiad.

Bydd yr arolygydd arweiniol yn cytuno ar drefniadau wrth gefn. Bydd hyn yn cwmpasu pwy all ddirprwyo’n dderbyniol ar gyfer y rhai a fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd, os bydd angen, a lefel ofynnol y cyfranogiad er mwyn i’r gynhadledd fynd rhagddi.

Defnyddir yr ymweliad i gadarnhau ffocws y gynhadledd a sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall eu rôl yn y gynhadledd. Bydd yn cynorthwyo’r arolygydd arweiniol i baratoi’n briodol ar gyfer y gynhadledd.

Yn ystod yr ymweliad, bydd uwch arweinwyr a rheolwyr yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am broses y gynhadledd. Dylent ddefnyddio’r cyfle i drafod unrhyw faterion sensitif gyda’r arolygydd arweiniol na fyddai’n briodol eu trafod yn fanwl yn ystod y gynhadledd.

Os na fydd ymweliad yn bosibl neu os na fydd yn bosibl cyfarfod â'r holl uwch arweinwyr a rheolwyr allweddol adeg yr ymweliad, gallai'r arolygydd arweiniol drefnu sgwrs ffôn gyda'r unigolion perthnasol.

Efallai y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn dymuno dosbarthu ychydig o bapurau cefndir byr i'r holl gyfranogwyr cyn y gynhadledd. Gall y papurau hyn ddarparu gwybodaeth gyd-destunol neu gefnogi'r sylwadau rhagarweiniol ar gyfer pob mater ar yr agenda. Rhaid dosbarthu'r papurau hyn i'r holl gyfranogwyr wythnos cyn y gynhadledd man hwyraf, fel bod cyfranogwyr yn cael amser i ymgyfarwyddo â nhw. Ni ddylai cyfranogwyr gyflwyno gwybodaeth newydd yn y gynhadledd fel arfer, ac eithrio lle mae'r wybodaeth hon yn llai nag wythnos oed.

## Briff ar gyfer y gynhadledd

Bydd yr arolygydd arweiniol yn paratoi briff i bawb sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd. Fel arfer, caiff ei ddarparu wythnos cyn y gynhadledd.

Ochr yn ochr â'r agweddau ymarferol, bydd y briff yn cadarnhau:

- ffocws y gynhadledd (gan gynnwys gwybodaeth gefndir)
- agenda'r gynhadledd (gan gynnwys amserau a'r bobl y bydd eu hangen ar gyfer gwahanol rannau o'r gynhadledd, os bydd angen)
- ein disgwyliadau ynghylch ymgysylltiad cyfranogwr â'r broses

## Lleoliad y gynhadledd

Cynhelir y gynhadledd mewn ystafell sy'n ddigon mawr i bawb eistedd o amgylch bwrdd mawr neu gylch o fyrddau. Dylai pawb sy'n cymryd rhan allu gweld ei gilydd. Dylai lluniaeth syml fod ar gael.

Bydd angen socedi trydan ar dîm Estyn wrth y bwrdd yn ystafell y gynhadledd. Ni fydd taflunydd a sgrin yn cael eu defnyddio fel arfer yn ystod y gynhadledd.

Hefyd, bydd ar dîm Estyn angen ystafell sylfaen gerllaw, y gellir ei chloi, lle y gallant gynnal cyfarfodydd tîm cyn ac ar ôl y gynhadledd, a rhwng yr eitemau ar yr agenda, os bydd hynny'n briodol.

## Proses y gynhadledd

Bydd yr arolygydd arweiniol sy'n cadeirio'r gynhadledd yn rhoi adborth byr i gyfranogwyr y gynhadledd ar ganlyniad arolygiad y GAALl. Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol sy'n llywio pob un o argymhellion yr adroddiad ac y dylai cynlluniau gwella'r awdurdod lleol fynd i'r afael â nhw. Gellid trafod argymhellion sy'n cyffwrdd â themâu tebyg ar yr un pryd.

Bydd y cadeirydd yn gwahodd cynrychiolydd o'r awdurdod i amlinellu gwerthusiad a dealltwriaeth yr awdurdod o'r mater. Bydd crynodeb o'r nodweddion allweddol yn ei gynlluniau gwella i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn dilyn. Ni ddylai hyn gymryd mwy nag 20 munud. Gellir dosbarthu taflenni ar bapur yn ystod y cyflwyniad hwn os bydd hynny'n ddefnyddiol (e.e. tablau a siartiau data neu ddiagramau sefydliadol), ond dim cyflwyniad PowerPoint.

Yn dilyn y drafodaeth gychwynnol, bydd y cadeirydd yn gwahodd cyfranogwyr eraill i ychwanegu eu barn (e.e. dadansoddiad, myfyrdod, beirniadaeth adeiladol) neu gwestiynu unrhyw agwedd ar y gwerthusiad neu'r cynllun. Bydd y cadeirydd yn cynnig barn ac yn gofyn cwestiynau hefyd.

Rydym yn disgwyl i'r awdurdod ddangos ei fod yn deall beth yw'r, neu beth fu'r, rhwystrau rhag gwella. Yn ogystal, rydym yn disgwyl i'r awdurdod ddangos ei fod naill ai wedi mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, neu ei fod yn delio â nhw'n effeithiol ar hyn o bryd neu mae ganddo gynlluniau â thystiolaeth dda i fynd i'r afael â nhw.

Os yw'r awdurdod yn hyderus ei fod eisoes yn dechrau mynd i'r afael yn dda ag argymhelliad neu faterion o fewn argymhelliad, bydd Estyn yn herio'r sylfaen dystiolaeth yn adeiladol.

Bydd y gynhadledd yn archwilio pob argymhelliad gan ddilyn yr un broses.

Ffocws allweddol i'r gynhadledd yw nodi sut beth fydd llwyddiant o ran pob argymhelliad, a chytuno ar hynny. Bydd angen i'r gynhadledd gytuno ar ba gynnydd y dylid disgwyl yn rhesymol i'r awdurdod ei wneud yn ystod pob cam o'i daith wella. Bydd hyn yn darparu cerrig milltir clir ar gyfer gwerthuso cynnydd yn y gynhadledd/cynadleddau cynnydd dilynol.

## Cymryd rhan ym mhroses y gynhadledd

Trwy fynychu'r gynhadledd, rydym yn disgwyl i gyfranogwyr gytuno i gymryd rhan yn adeiladol yn y broses a pharchu'r cyfranogwyr eraill. Mae hyn yn golygu bod y cyfranogwyr yn cytuno i:

- siarad yn eu tro, trwy'r cadeirydd
- gwrando'n astud tra bydd cyfranogwr arall yn siarad
- peidio â chynnal 'sgyrsiau ochrol'
- cadw at y terfynau amser sy'n cael eu gosod gan y cadeirydd
- osgoi barn bersonol
- parchu cyfrinachedd

O ran cwrteisi i'r sawl sy'n siarad, ni ddylai cyfranogwyr ddefnyddio ffonau symudol, llechi, gliniaduron nac unrhyw ddyfais arall yn ystod y gynhadledd oni bai bod hynny'n cael ei wneud i chwilio am wybodaeth sy'n berthnasol i'r gynhadledd.

Er mwyn helpu i annog trafodaeth onest ac agored, cynhelir y gynhadledd yn unol â rheolau 'Chatham House', ar wahân i'r cofnod swyddogol (gweler yr esboniad isod). Mae hyn yn golygu na ddylai cyfranogwyr wneud recordiad sain na fideo o'r gynhadledd, na gofyn i gydweithiwr wneud cofnod ysgrifenedig llawn yn ystod y gynhadledd.

## Cofnod o'r gynhadledd

Yn ystod y gynhadledd, bydd un arolygydd yn cadw cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed neu gamau y mae'r awdurdod, ei bartneriaid neu unrhyw un o'r rhanddeiliaid eraill sy'n bresennol yn cytuno iddynt. Bydd y cofnod yn cynnwys enwau a swyddi'r rhai sy'n bresennol hefyd. Bydd y cofnod yn helpu'r cadeirydd i ddod ag eitemau'r agenda i gasgliad. Bydd cyfle i gyfranogwyr wirio bod y cofnod yn ffeithiol gywir ar ôl y gynhadledd, cyn iddo gael ei gadarnhau.

## Canlyniad y gynhadledd

Ar ôl y gynhadledd, byddwn yn ysgrifennu at brif weithredwr yr awdurdod i gadarnhau canlyniad y gynhadledd. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei anfon at arweinydd y cyngor, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, CLILC a, lle y bo'n berthnasol, AGC. Bydd y cofnod cytunedig o'r gynhadledd ynghlwm wrth y llythyr hwn. Fel arfer, anfonir y llythyr hwn o fewn pythefnos i'r gynhadledd.

Ni fyddwn yn cyhoeddi'r llythyr hwn na'r cofnod o'r gynhadledd ar ein gwefan. Fodd bynnag, byddem yn eu rhyddhau i unrhyw aelod o'r cyhoedd pe bai cais yn cael ei wneud o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Gweithgarwch ar ôl y gynhadledd

Nid ydym yn disgwyl i'r awdurdod greu cynllun gweithredu ar wahân cyn y gynhadledd a dylai swyddogion ddiweddaru ei gynllun(iau) presennol i adlewyrchu penderfyniadau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y gynhadledd. Hefyd, gallai'r awdurdod wneud penderfyniadau pellach neu gytuno ar ragor o gamau gweithredu yn dilyn y gynhadledd, a allai ymddangos hefyd yn ei gynllun neu gynlluniau wedi'u diweddaru. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r awdurdod yn amlygu rywsut y newidiadau neu'r ychwanegiadau at gynlluniau presennol, fel eu bod yn hawdd eu hadnabod. Dylai'r awdurdod rannu ei gynllun(iau) wedi'u diweddaru gyda ni o fewn pedair wythnos fan bellaf o gael y llythyr am ganlyniad y gynhadledd.

Bydd yr arolygydd arweiniol ynghyd ag arolygwyr cyswllt yr awdurdod yn adolygu'r cynllun(iau) wedi'u diweddaru ac yn cynnig sylwadau adeiladol, lle bo'r angen. Fodd bynnag, nid oes angen i ni gymeradwyo'r cynllun(iau) wedi'u diweddaru yn ffurfiol.

O hynny ymlaen, byddwn yn parhau â'n gwaith arferol gyda'r awdurdod lleol drwy'r arolygwyr cyswllt, a fydd yn cynnwys monitro gweithredu'r cynllun(iau).

Bydd y cofnod o'r gynhadledd yn nodi unrhyw gymorth estynedig neu ychwanegol i'r awdurdod, lle y bo'n berthnasol, gan bartneriaid a rhanddeiliaid allanol. Mae disgwyl i'r partneriaid a'r rhanddeiliaid hyn weithio'n agos gyda'r awdurdod i sicrhau bod eu cymorth yn cael ei dargedu'n effeithiol.

Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd, byddwn yn cynnull y gynhadledd eto i adolygu cynnydd yn ffurfiol. Cyhyd ag y bo'n bosibl, byddwn yn cynnwys o leiaf ddau o'r tîm gwreiddiol ac, yn ddelfrydol, byddwn yn cadw'r un arolygydd arweiniol i gadeirio'r gynhadledd. Os byddwn yn fodlon â'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr awdurdod, yna ni fydd unrhyw weithgaredd pellach yn gysylltiedig â'r gynhadledd welliant.

## Cynhadledd gynnydd

Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd welliant ôl-arolygiad, byddwn yn trefnu'r gynhadledd gynnydd. Bydd y gynhadledd gynnydd yn cynnwys yr un uwch arweinwyr â'r gynhadledd welliant ôl-arolygiad. Pwrpas y gynhadledd gynnydd yw adolygu'r graddau y mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd gan yr arolygiad. Bydd trefniadau gweithredol y gynhadledd gynnydd yn dilyn yr un dull cyffredinol ag ar gyfer y

gynhadledd welliant ôl arolygiad, gydag arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol yn cysylltu i ddechrau ac yn cytuno ar y dyddiadau a'r trefniadau ymarferol.

Bydd y cydlynydd arolygu yn cysylltu â'r awdurdod i gadarnhau'r trefniadau a chasglu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer yr arolygydd arweiniol.

Ar ôl y gynhadledd gynnydd, byddwn yn anfon llythyr at brif weithredwr yr awdurdod lleol. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau graddfa'r sicrwydd a gaiff arolygwyr yn ystod y gynhadledd fod camau'r awdurdod lleol ers yr arolygiad wedi arwain at yr effaith a ddymunwyd ar y meysydd i'w gwella. Yn y llythyr, gallem gynnwys argymhellion i'r awdurdod i ategu gwelliant pellach yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryder. Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Addysg.

Byddwn yn gwahodd Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a CLILC i gymryd rhan, ac AGC hefyd, lle y bo'n briodol.

Yn sgil ein barn am y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol ar yr adeg hon a'i gynlluniau ar gyfer gwella ymhellach, byddwn yn ystyried pa mor debygol yw hi y gellir tynnu'r awdurdod o gategori gweithgarwch dilynol ymhen blwyddyn. Os ydym o'r farn ei bod hi'n debygol y gall yr awdurdod ddangos digon o gynnydd i'w dynnu o gategori gweithgarwch dilynol, byddwn yn cynllunio ymweliad monitro. Fodd bynnag, os byddwn o'r farn y bydd angen mwy o amser ar yr awdurdod, byddwn yn trefnu ail gynhadledd gynnydd ymhen blwyddyn.

Bydd arolygwyr cyswllt yr awdurdod lleol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â swyddogion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig a rhanddeiliaid yn dilyn y gynhadledd i fonitro gwaith gwella rhwng cynadleddau gwella a'r ymweliad monitro.

**Ymweliad monitro**

Byddwn yn cynnal ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd gynnydd ddiwethaf.

Yn ystod yr ymweliad monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a faint o gynnydd a wnaed yn gyffredinol. Os na fydd yr awdurdod lleol yn achosi pryder sylweddol mwyach, yna bydd arolygwyr yn argymell i PAEM fod yr awdurdod yn cael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol.

Bydd maint y tîm a chynllun yr ymweliad yn cael eu haddasu yn ôl cyd-destun penodol yr awdurdod lleol a natur yr argymhellion. Gallem wahodd Swyddfa Archwilio Cymru neu AGC i gyfrannu at yr ymweliad, os yw hynny'n briodol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymweliad monitro. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd ar gyfer pob argymhelliad, sylwebaeth grynodol ar gynnydd a barn gyffredinol ar gynnydd, a fydd yn cadarnhau p'un a yw'r awdurdod lleol wedi gwneud digon o gynnydd i gael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol ai peidio.

Os na fyddwn yn fodlon â'r cynnydd, byddwn yn dychwelyd ymhen tua blwyddyn ar gyfer ymweliad monitro pellach.

## Atodiad 1: Ystafell arolygu rithwir

Byddwn yn defnyddio system ein hystafell arolygu rithwir (YAR) i alluogi'r awdurdod a ninnau i rannu dogfennau perthnasol. Yn 'Ardal y Darparwr' yn YAR cyfredol yr awdurdod, byddwn yn creu ffolder o'r enw 'Cynhadledd welliant'. Yn ardal 'Arolygwyr Cyswllt' yr YAR, bydd ffolder â'r un teitl at ddefnydd mewnol y tîm.

Ni ddylai'r awdurdod orlenwi ffolder y gynhadledd welliant. Dylai ganolbwyntio ar rannu'r dogfennau pwysicaf sy'n berthnasol i'r mater/materion dan sylw. Mae dogfennau y dylid bob amser eu rhannu yn cynnwys:

- ei gynllun(iau) gwella presennol
- strwythur y sefydliad
- adroddiadau arwyddocaol sydd wedi'u cynhyrchu'n fewnol neu eu comisiynu gan yr awdurdod
- papurau perthnasol y cyngor

Os oes tystiolaeth sy'n berthnasol i'r gynhadledd gan y consortiwm rhanbarthol neu bartner arall, dylent anfon hon ymlaen i'r awdurdod er mwyn gallu ei lanlwytho i'r YAR.

## Atodiad 2: Y sylfaen gyfreithiol

Caiff arolygiadau awdurdodau addysg lleol eu cynnal o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 sy'n darparu 'y caiff, ac os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) drefnu i unrhyw awdurdod lleol gael ei arolygu'. Rhaid i arolygiad o'r fath 'gynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer (a) pobl o oed ysgol gorfodol (boed yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) bobl o unrhyw oedran uwchlaw neu islaw'r oedran hwnnw sydd wedi'u cofrestru'n ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'.

Mae agweddau eraill ar ddarpariaeth yr awdurdod lleol yn destun eu harolygu o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod o dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid (gwasanaethau cymorth ieuenctid o fewn ystyr adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000).

Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydweithredu i wella lles plant. O ran awdurdodau lleol, rhoddir y pwerau i'r arolygiaeth adolygu swyddogaethau'r awdurdod lleol yn gysylltiedig ag Adran 51 y Ddeddf, sef cydweithredu i wella lles a llunio cynlluniau plant a phobl ifanc lle y mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae Adran 51 Deddf Plant 2004 yn newid Deddf Addysg 1997 fel bod 'Arolygiad o awdurdod addysg lleol yng Nghymru o dan yr adran hon yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni:

- unrhyw swyddogaeth a gyflwynwyd iddo yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod addysg lleol
- y swyddogaethau a gyflwynwyd iddo o dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid'

Bydd cynhadledd welliant yn canolbwyntio ar swyddogaethau addysg statudol dethol yr awdurdod lleol.

Bydd cynadleddau gwelliant yn cael eu cynnal gan Arolygwyr ei Mawrhydi (AEM) dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn ymateb i'r gofyniad yn Neddf Plant 2004 i arolygiaethau gydweithio'n agosach, gallai arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymuno ag AEM. Yn ogystal, efallai bydd arolygwyr ychwanegol (AY) sydd wedi'u hawdurdodi o dan baragraff 2 Atodlen 1 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 yn ymuno ag AEM mewn cynadleddau achos. O dan Adran 41 Deddf Addysg 1997, fel y'i diwygir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gallai PAEM ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynorthwyo ag unrhyw arolygiad o dan Adran 38. O dan y memorandwm dealltwriaeth rhwng PAEM a'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â chynorthwyo â'r cylch diwethaf o arolygiadau awdurdodau lleol, cytunwyd:

i. bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfrannu at yr arolygiadau hynny o awdurdodau lleol lle y bydd arbenigedd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ychwanegu at drylwyredd ac effeithiolrwydd yr arolygiad;
ii. bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfrannu at gasglu a dadansoddi data perfformiad awdurdodau lleol yn rheolaidd; ac
iii. fel partneriaid mewn arolygu awdurdodau lleol, gall yr Archwilydd Cyffredinol a'r arolygiaeth ddefnyddio adroddiadau arolygu'r awdurdod lleol i lunio adroddiadau, arolygon ac astudiaethau eraill.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn atgyfnerthu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwelliant parhaus a chyfrif amdano. Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau adrodd am gyflawniad yn erbyn ei amcanion gwella a chymharu perfformiad ag awdurdodau eraill. Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i PAEM a'r Archwilydd Cyffredinol ystyried yr angen am gydweithio wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio. Mae'n rhoi pwyslais ar rannu arfer dda hefyd.